William Booth 1829–1912

Sylfaenydd Byddin yr Iachawdwriaeth

Ganwyd William Booth yn Sneinton, Nottingham, ar 10 Ebrill 1829, yn un o bump o blant i Samuel Booth, adeiladydd, a'i ail wraig, Mary Moss. Aeth i Ysgol Biddulph, ond oherwydd tlodi'r teulu gadawodd yn dair ar ddeg oed gan fynd i weithio mewn siop wystlo (pawnbroker). Cafodd blentyndod caled ac i wneud pethau'n waeth bu farw ei dad. Pan oedd yn ei arddegau aeth i wrando ar y pregethwr Methodistaidd o America, James Caughey, oedd ar ymweliad â Nottingham ym 1846. O ganlyniad daeth i gredu yn Iesu Grist ac ymunodd â chriw o Gristnogion oedd yn cynnal cyfarfodydd efengylu ar strydoedd y dref. Ym 1849 symudodd i Lundain i chwilio am waith ac fe gafodd swydd mewn siop wystlo yn Walworth. Yn y cyfnod hwn ymddiddorai mewn gweithgareddau Cristnogol gyda'r Methodistiaid a dyma pryd y perswadiodd E. J. Rabbits ef i ddechrau pregethu. Hefyd cyfarfu â Catherine Mumford a ddaeth yn wraig iddo ac a ddylanwadodd yn drwm ar ei feddwl a'i ddyfodol. Teimlodd alwad i efengylu ac fe'i penodwyd yn bregethwr teithiol gyda'r Methodistiaid ym 1852.

Cychwynnodd Byddin yr Iachawdwriaeth yn nwyrain Llundain ym 1865 o ganlyniad i ymgyrch genhadol o dan arweiniad William Booth. Roedd ef newydd ymddiswyddo o'i waith fel pregethwr gyda'r Gylchdaith Wesleaidd. Wrth ddechrau'r gwaith, mewn pabell ar dir mynwent y Crynwyr, deuai llawer o bobl fwyaf difreintiedig cymdeithas ato. O fewn blwyddyn roedd 60 o bobl wedi dod i gredu trwy ei weinidogaeth. Yn fuan iawn, dysgodd Booth ddau beth pwysig. Yn gyntaf, bod yn rhaid iddo newid ei gyflwyniad o'r Efengyl i fod yn fwy theatrig. Yn ail, nad oedd ei ddychweledigion yn gallu ymgartrefu mewn eglwysi traddodiadol. Oherwydd hynny, sefydlodd nifer o orsafoedd lle roedd yn gallu meithrin Cristnogion newydd. Er mwyn bod yn agosach at y bobl yr oedd am eu cyrraedd, symudodd ef a'i deulu i fyw i Hackney ac agorodd bencadlys yn 272 Whitechapel Road.

Wrth weld tlodion yn dathlu'r Nadolig ym 1868 trwy feddwi yn chwil ulw penderfynodd y byddai'n ceisio darparu rhywbeth ar eu cyfer. Y flwyddyn ddilynol paratôdd ef a'i wraig Catherine a chynorthwywyr eraill 300 o giniawau Nadolig. Dyma oedd y cam cyntaf yng ngwaith dyngarol y Fyddin. Ehangwyd ar y gwaith hwn trwy agor ceginau cawl a bwytai rhad. Dechreuasant hefyd ddefnyddio termau milwrol wrth siarad am y gwaith, fel 'ymladd dros Dduw' a 'byddin yr Haleliwia', a gelwid Booth yn Gadfridog. Ym 1878 bathwyd yr enw Byddin yr Iachawdwriaeth (Salvation Army). Tyfodd y mudiad yn rhyfeddol ac erbyn 1879 roedd ganddynt filoedd o ddilynwyr, 81 o orsafoedd a 127 o efengylwyr llawnamser yn cynnal 75,000 o gyfarfodydd y flwyddyn.

Dechreuwyd hefyd ddefnyddio band pres i gyfeilio yn yr addoliad ac i dynnu sylw mewn ymgyrchoedd cenhadol. Dyma pryd y dywedodd Booth ei eiriau enwog, 'Pam ddylai'r diafol gael yr alawon gorau?' ('Why should the devil have all the best tunes?'). Datblygodd strwythur y mudiad; gelwid y bwrdd llywio yn Gyngor Rhyfel, cynlluniwyd baner gyda'r geiriau 'gwaed a thân' arni ac ym 1880 ymddangosodd y lifrai nodweddiadol sy'n cael eu gwisgo hyd heddiw. Yn y 1880au bu'n rhaid iddynt wynebu erledigaeth. Ymosodwyd yn filain ar 669 o aelodau'r fyddin a maluriwyd 56 o adeiladau.

Y cam nesaf oedd ymestyn y mudiad y tu hwnt i ffiniau gwledydd Prydain. Ymfudodd un o'r aelodau, sef Amos Shirley, i'r Unol Daleithiau a chychwynnodd gyfarfodydd yn Philadelphia. Sefydlwyd canghennau hefyd yn Ffrainc, India, Awstralia a Seland Newydd. Erbyn 1891 roedd 10,000 o swyddogion yn gweithio mewn 26 o wledydd. Agorwyd hefyd y lloches gyntaf i'r digartref yn Llundain wrth ymyl y West India Dock. Credai William Booth fod pregethu Efengyl Iesu Grist a rhannu cariad Duw yn ymarferol yn annatod glwm yn ei gilydd. Bu farw ar 20 Awst 1912 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Abney Park, Stamford Hill, Llundain.